| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor Sir** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **20 Hydref 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Julian Thompson Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad / Alan Smith, Pennaeth Gwasanaeth, Gwella a Moderneiddio Busnes** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Nicola Kneale, Swyddog Cynllunio a Pherfformiad Strategol** |
| **Teitl:** | **Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2014-15** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae gofyn i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei berfformiad erbyn 31 Hydref pob blwyddyn. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag Adolygiad Perfformiad Blynyddol drafft y Cyngor ar gyfer 2014-15.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae angen gwneud penderfyniad ynghylch cymeradwyo fersiwn ddrafft Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2014-15, sydd ynghlwm wrth yr adroddiad fel Atodiad I a II.

2.2 Mae Atodiad I yn cynnwys crynodeb o'r cynnydd yn erbyn pob dangosydd, mesur perfformiad a gweithgaredd ar gyfer pob blaenoriaeth gorfforaethol, ynghyd â gwybodaeth am lwyddiannau a heriau allweddol a wynebwyd yn ystod y flwyddyn. Mae hefyd yn manylu ar berfformiad yn erbyn Prosiectau Corfforaethol, Dangosyddion Strategol Cenedlaethol, Cytundebau Canlyniadau a chanfyddiadau allweddol rheoleiddwyr allanol.

2.3 Mae Atodiad II yn cynnwys gwybodaeth am System Reoli Perfformiad Verto ynghyd â graffiau sy'n dangos data perfformiad mewn perthynas â'r Cynllun Corfforaethol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Argymhellir, yn amodol ar unrhyw newid a gytunir arno, bod yr Aelodau yn cymeradwyo Adolygiad Perfformiad Blynyddol drafft 2014-15 er mwyn ei gyfieithu a'i gyhoeddi cyn 31 Hydref 2015.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae Cynllun Corfforaethol 2012-17 y Cyngor yn nodi cyfeiriad strategol a blaenoriaethau'r Cyngor am gyfnod o bum mlynedd. Mae manylion yr hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud pob blwyddyn i gynorthwyo gyda chyflawni'r blaenoriaethau wedi eu nodi yn y cynlluniau gwasanaeth blynyddol, yn Nogfen Gyflawni Blynyddol y Cynllun Corfforaethol ac mewn cyfres o Cytundebau Canlyniad gyda Llywodraeth Cymru.

4.2 Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn yn darparu gwerthusiad ôl-weithredol o lwyddiant y Cyngor wrth gyflawni yn erbyn y cynlluniau hyn yn ystod 2014-15, a p'un ai yw'r Cyngor wedi llwyddo i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae'r Adolygiad Perfformiad Blynyddol yn cynnwys gwerthusiad o lwyddiant y Cyngor o ran y blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Yr unig gostau sy'n gysylltiedig â'r adroddiad hwn yw'r rheiny sy'n ymwneud ag argraffu'r adroddiad i sicrhau ei fod ar gael mewn derbynfeydd, llyfrgelloedd a siopau un stop y Cyngor ac ati. Bydd hyn yn cael ei wneud yn fewnol, gyda'r costau yn cael eu hamsugno gan y Gwasanaeth Gwella a Moderneiddio Busnes.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai fod templed o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi a'i atodi i'r adroddiad.**

7.1 Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer yr adroddiad hwn. Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwerthusiad ôl-weithredol o berfformiad y Cyngor ac nid yw'r penderfyniad i gymeradwyo'r adroddiad yn effeithio ar nodweddion a ddiogelir. Cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar y Cynllun Corfforaethol, a chafodd ei gyflwyno i'r Cyngor Sir pan gymeradwywyd y cynllun ym mis Hydref 2012.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1 Datblygwyd yr adroddiad hwn gan y Tîm Cynllunio a Pherfformiad Strategol, drwy ymgynghori â gwasanaethau eraill y Cyngor. Mae'r wybodaeth ynglŷn â'r perfformiad wedi ei darparu gan y gwasanaethau yn defnyddio system rheoli perfformiad Verto. Ymgynghorwyd â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth cyn cyflwyno'r adroddiad ger bron y Cyngor Sir i'w gymeradwyo.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Nid oes goblygiadau ariannol arwyddocaol o ganlyniad i’r adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 “Mae’r risg o adroddiadau negyddol gan reolyddion allanol” yn risg sydd wedi ei nodi ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Byddai methu cyhoeddi’r Adolygiad Blynyddol erbyn y dyddiad terfyn o 31 Hydref yn debygol o arwain at argymhellion statudol gan Swyddfa Archwilio Cymru, gyda goblygiadau sylweddol ar gyfer enw da’r Cyngor.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad:

11.1 Mae’r Cynllun Corfforaethol a’r Adolygiad Perfformiad Blynyddol yn elfennau allweddol o Raglen Cymru ar gyfer Gwella (2010), sy’n cael ei gefnogi gan ofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.